PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 6 Chwefror 5, 2026 50c.

# 'Y pŵer sy'n llygru'n llwyr'

Now he worships at an altar of a stagnant pool
And when he sees his reflection, he's fulfilled;
Oh, man is opposed to fair play
He wants it all and he wants it his way...

Licence to kill – Bob Dylan, 1983

Dyna ddisgrifiad o ddyn sy'n addoli ei ddelwedd ei hun o weld ei adlewyrchiad mewn pwll o ddŵr brwnt; dyn sydd â'i ego'n rhemp; dyn sy'n mynnu cael ei ffordd ei hun wrth awchu'n drachwantus am bopeth. Pan fod hynny'n wir am y dyn mwyaf pwerus yn y byd, mae'r fath hunanaddoliad, sy'n hollol ddi-hid o hawliau pobl a gwledydd eraill, yn cael canlyniadau peryglus a dinistriol. Fel medda'r dywediad: 'Mae pŵer yn llygru, a phŵer absoliwt yn llygru'n llwyr.'

## Camddefnyddio pŵer

Sôn ydwyf wrth gwrs am Donald Trump. S'dim angen i fi atgoffa chi am ei gamddefnydd o bŵer America yn bygwth meddiannu'r Ynys Las; yn bygwth trethu yn erbyn gwledydd cyfeillgar os nad yw'n cael ei ffordd; yn gwawdio NATO ac yn gorfodi gwledydd fel Prydain i godi'r gwariant ar arfau yn sylweddol, gan anghofio mai America yw'r unig wlad erioed i alw ar wledydd NATO am gymorth – a hynny i ymosod ar Affganistan yn dilyn digwyddiad erchyll 9/11 yn Efrog Newydd. Ac wedyn yn dilorni cyfraniad NATO yn y rhyfel hwnnw, lle cafodd 457 o filwyr Prydain, gan gynnwys 32 o Gymry, eu lladd.

## Gangiau arfog yn herw-gipio a lladd

Ac yn America ei hun mae gangiau arfog ICE (Immigration and Customs Enforcement), o dan orchymyn Donald Trump, yn crwydro strydoedd y wlad gan gipio oedolion a phlant maen nhw'n amau sydd heb yr hawl i fod yno. Cafodd pobol gyffredin eu harswydo o weld hyn yn digwydd i'w cymdogion, ac yn Minnesota bu protestiadau i geisio rhwystro ICE. Wrth iddi geisio gyrru i ffwrdd o brotest, cafodd Renee Good ei saethu'n farw, ac wrth iddo geisio mynd i achub merch oedd wedi cael 'pepper spray' yn ei hwyneb gan giang o swyddogion arfog, cafodd Alex Pretti ei dynnu i'r llawr, ei guro'n ffiaidd, ac wedyn ei saethu'n farw. Oedd – fe oedd e'n cario gwn (mae hyd yn oed mamau sy'n mynd â'u plant i'r ysgol yn cario gynnau yn America) ond y cyfan oedd yn ei law oedd ffôn. Mae fideos yn dangos na wnaeth e ymdrech i dynnu'r gwn, ac ar ôl i swyddog gymryd y gwn oddi arno y cafodd ei saethu ddeg o weithio yn ei gefn a'i ben gan ddau o'r giang.

## Ymateb gwleidyddol

Roedd Alex Pretti yn nyrs mewn uned gofal dwys mewn ysbyty sy'n gofalu am gyn-filwyr. Mae hynny, ynddo'i hyn, wedi cael ymateb ysgytwol. Mae Chris Madel, oedd â'i fryd ar sefyll etholiad fel llywodraethwr Minnesota dros blaid Weriniaethol Donald Trump, nid yn unig wedi sefyll lawr o'r ymgyrch, ond wedi gadael y blaid yn gyfangwbl. 'Byddai'n amhosibl i mi edrych i fyw llygaid fy merched petawn i ddim yn gwneud hyn,' meddai.



## Ymateb Cristnogol

Fe dystiodd y Tad Harry Tasto, a fu'n cydweithio am ddeng mlynedd fel caplan gydag Alex Pretti mewn ysbyty i gyn-filwyr yn Minneapolis, ei fod yn berson hynod garedig ac ystyriol o gleifion. Nid oedd honiad y Tŷ Gwyn ei fod yn derfysgwr oedd â'i fryd ar ladd rhywun yn wir o gwbwl, meddai'r offeiriad Catholig wrth arwain oedfa yn lleol. O ystyried y digwyddiadau arswydus, rhybuddiodd y Gwir Barchedigion Jennifer Brooke-Davidson a Samuel Rodma, dau esgob Anglicanaidd o Ogledd Dakota 'Ni ddylid anwybyddu'r trais a'r cam-drin pŵer gan ein llywodraeth ffederal a fydd yn hawlio llawer mwy o ddioddefwyr os nad ydym yn codi ein lleisiau a chymryd camau i atal gweithredoedd anghyfreithlon pellach ... Daw'r erchyllterau hyn ar sodlau misoedd o herwgipio plant a cham-drin henoed. Rydym yn annog pob Cristion i ymateb, nid gyda thrais, ond gyda phenderfyniad a doethineb. Mae'r sefyllfa yn beryglus, ac mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i amddiffyn ein gilydd rhag niwed.'

## Llusgo enw'r wlad drwy'r baw

'Make America Great Again' (MAGA) oedd y slogan a gariodd Donald Trump i'r Tŷ Gwyn ddwywaith, gan feio menfudwyr am broblemau gwlad a wladychwyd gan fewnfudwyr yn y lle cynta! Ond yn hytrach na dyrchafu America, mae'r hyn sy'n digwydd nawr yn llusgo enw'r wlad honno drwy'r baw yng ngolwg gwledydd democrataidd y byd, wrth orfod dioddef bygythiadau ffiaidd yr arlywydd ansefydlog a chreulon hwn. Yn anffodus, mae meddylfryd tebyg i MAGA yn rhemp ym Mhrydain hefyd: beio 'rhywun arall' am broblemau'r wlad. Mae'r Iddewon yn cofio'n iawn beth oedd pendraw hynny yn Ewrop bron i ganrif yn ôl, a ninnau hefyd wrth nodi dyddiad yr Holocaust wythnos ddiwethaf.

## Rhaid herio'r tywyllwch

Fe all geiriau Bob Dylan (sydd trwy gyd-ddigwyddiad yn enedigol o Minnesota) fod yn ddisgrifiad o'r cyflwr dynol yn gyffredinol: rydym yn addoli wrth allor yr hunan. Ond trwy'r Ysbryd Glân mae Duw yn Iesu Grist yn ein galluogi ni i weld y tu hwnt i'r hunan, ac yn rhoi'r awydd ni i ymdrechu i geisio sicrhau fod pawb yn cael chwarae teg yn wyneb pobl balch ac anghyfiawn. Yn yr oes ansefydlog hon, yn fwy nac erioed, rhaid i'r eglwysi a'n haelodau bod yn gwbl effro i'r hun allai ddigwydd – gan ddechrau ar lefel leol. Fel meddai Josh Shapiro, Llywodraethwr Pennsylvania, 'Just because you turn off the TV News and pull up the bed covers, it doesn't mean that the darkness has gone away.'

**Alun Lenny**

# Rhodd Neuaddlwyd i Fadagascar

*Ail ran yr erthygl am y cenhadon o Gymru aeth i Fadagascar.*



Yn y cyfamser, roedd Jones wedi gwella ym Mauritius a dychwelodd i Fadagascar ym 1820. Croesawodd y Brenin Radama ef yn gynnes, a dechreuodd Jones addysgu ar unwaith. Ymunodd Griffiths ag ef ar 20 Mai 1821. Roedd Jones eisoes wedi agor ysgol ym mis Tachwedd 1820 i addysgu plant y teulu brenhinol, un o'r ysgolion cyntaf ym Madagascar. Ar gais y brenin, agorodd Griffiths ysgol arall ar 20 Hydref 1821 gyda naw bachgen, tra bod gan Mrs Griffiths chwech o ferched. O fewn tri mis, roedd deugain o ddisgyblion. Meistrolodd Jones a Griffiths yr iaith Malagasi yn gyflym a'i defnyddio i bregethu ac addysgu. Bryd hynny, nid oedd gan yr iaith ffurf ysgrifenedig. Ym 1824, gweithiodd y cenhadon yn galed gyda myfyrwyr Malagasaidd i wneud hynny. Gan weithio'n agos gyda deuddeg ysgolhaig Malagasaidd dawnus, a elwid y Roambinifololahy, cynhyrchwyd geiriadur a gwerslyfrau a dechreuwyd cyfieithu'r Beibl. Erbyn canol 1826 cwblhawyd y Testament Newydd, ac erbyn mis Tachwedd 1827, roedd y Beibl cyfan wedi ei gyfieithu. Madagascar oedd y genedl Affricanaidd gyntaf i gael y Beibl cyfan wedi'i gyfieithu i'w hiaith, cyfieithiad sy'n dal i gael ei gydnabod heddiw am ei harddwch a'i gywirdeb.

O fewn deng mlynedd, er gwaethaf ymosodiadau malaria mynych, roedd y cenhadon wedi sefydlu mwy na 100 o ysgolion yn y brifddinas Antananarivo a'r cyffiniau. Hefyd hyfforddwyd athrawon dirifedi, a dysgu oddeutu 15,000 o fyfyrwyr Malagasaidd i ddarllen ac ysgrifennu.

### Erledigaeth

Pan fu farw'r Brenin Radama ym 1828, newidiodd pethau. Gwelwyd Cristnogaeth fel bygythiad, a chafodd y cenhadon eu gyrru o'r wlad a bu chwe blynedd ar hugain o erledigaeth. Gwaharddwyd darllen y Beibl a chyfarfod i weddïo. Claddodd teuluoedd eu Beiblau neu eu cuddio mewn ogofâu. Rhwygwyd Beiblau'n adrannau fel bod modd eu rhannu'n gyfrinachol. Eto, er gwaethaf y perygl, tyfodd yr eglwys yn gyflymach yn ystod cyfnod yr erledigaeth nag yng nghyfnod y cenhadon. Heddiw, mae mwy na 70% o boblogaeth Madagascar yn Gristnogion.

### Trysor Cenedlaethol

Daeth ein hymweliad â Neuaddlwyd i ben yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Dangosodd Dr Dafydd Tudur un o Feiblau gwreiddiol Malagasi inni. Roeddem wrth ein bodd, a threuliasom oriau yn ei ddarllen. Roedd y blwch lle cedwid y Beibl wedi'i labelu gyda'r geiriau, 'Beibl Malagasi 1830 – David Jones a David Griffiths.' Gofynnais i'r llyfrgell a fyddai modd cofnodi enwau'r deuddeg ysgolhaig Malagasaidd a wnaeth y cyfieithiad yn bosibl.

Wrth i ni sefyll yn Neuaddlwyd, cefais fy atgoffa bod gwaith Duw yn aml yn dechrau mewn mannau di-nod a anwybyddir gan y byd. O'r capel tawel Cymreig hwn daeth mudiad a gyrhaeddodd galon Madagascar. Ar ochr arall y byd, dyfalbarhaodd Cristnogion Malagasaidd yn y ffydd a hynny trwy galedi, erledigaeth.

I mi, fel Malagasiad, nid hanes yn unig yw'r stori hon; mae'n rhan o fy etifeddiaeth ysbrydol fy hun. Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn nawr i wasanaethu ochr yn ochr ag eglwysi Cymru, gan gynnig rhywbeth yn ôl o'r ffydd a'r haelioni a estynnwyd i ni gyntaf gan Gristnogion Cymru dros ddwy ganrif yn ôl.

Nid stori Gymreig yn unig yw stori Neuaddlwyd bellach, nac un Malagasaidd yn unig. Mae'n etifeddiaeth a rennir. Mae'r camau a gymerwyd gan ychydig yng Nghymru yn parhau i adleisio ym mywydau miliynau ym Madagascar heddiw. Gwnaeth ein hymweliad yn glir nad yw'r cysylltiad rhwng ein dwy genedl yn rhywbeth yn y gorffennol yn unig; na, mae'n fyw, yn cael ei drysori, ac yn dal i ddwyn ffrwyth.

**Miara Rabearisoa**



## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**
**Cyfarfodydd Blynyddol 2026**

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg
Gwesty'r Towers, Abertawe
24–26 Mehefin, 2026

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w cyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 8 Mai fan bellaf. Bydd angen llofnod cynigydd ac eilydd ar bob penderfyniad.

Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 05 2026 RHIF 258

# Siarter ar gyfer lle a rôl plant ym mywyd yr Eglwys

Cyhoeddwyd y siarter 10 pwynt isod am y tro cyntaf ddeng mlynedd ar hugain yn ôl gan rwydwaith gwaith plant Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI), ac ar y pryd fe gyhoeddodd Cyngor yr Ysgolion Sul addasiad Cymraeg ohono.

Fe'i rhannwyd yn eang bryd hynny i gynorthwyo eglwysi i drafod lle a rôl plant ym mywyd ein heglwysi. Yn y cyfnod hwnnw roedd yna lawer mwy o blant yn mynychu oedfaon yn rheolaidd, ond erbyn hyn profiad prin yw dod ar draws plant mewn oedfa ar y Sul. Diolch am yr eglwysi hynny sy'n gofalu bod yna ddarpariaeth ar gyfer plant, ond tybed pa mor bell ydyn ni'n barod i fynd er mwyn sicrhau bod 10 pwynt y siarter yn realiti yn ein heglwysi? Beth am drefnu cyfarfod yn lleol i drafod cynnwys y 10 pwynt a gweld i ba raddau rydym yn cytuno efo'r pwyntiau, a sut allwn ni fynd ati i'w gweithredu?

1. Mae plant yn bartneriaid cyfartal ag oedolion ym mywyd yr eglwys.
Ceisiwn ofalu bod plant yn yr eglwys hon yr un mor bwysig ag oedolion.

2. Mae addoliad Cristnogol ar gyfer plant yn ogystal ag oedolion.
Rydym yn ceisio gofalu bod pawb yn yr eglwys hon yn medru addoli Duw mewn llawer o ffyrdd gwahanol, waeth beth yw eu hoedran.

3. Mae dysgu a thyfu mewn ffydd ar gyfer yr eglwys gyfan, yn oedolion a phlant.
Ceisiwn ofalu bod ein heglwys yn helpu pawb i barhau i ddysgu a datblygu yn eu taith ffydd.

4. Mae cymdeithas a chwmnïaeth ar gyfer pawb, a phawb yn perthyn yn ystyrlon i'w gilydd.
Ceisiwn ofalu bod ein heglwys yn awyrgylch lle mae pawb yn teimlo ac yn gwybod eu bod yn perthyn.

5. Mae gwasanaethu a chyfrannu ar gyfer plant, yn ogystal ag oedolion.
Yn yr eglwys hon, rydym yn ceisio gofalu bod plant ac oedolion yn cael gwneud pethau i helpu Duw, yr eglwys a phobl eraill yn y gymuned a'r byd.

6. Mae'r alwad i efengylu a thystiolaethu ar gyfer holl bobl Dduw, yn blant ac oedolion.
Mae Duw eisiau i bawb rannu'r Newyddion Da gydag eraill. Fel eglwys rydym yn ceisio gwrando a helpu pawb o bob oed i rannu'r hyn rydym wedi ei ddysgu.

7. Mae'r Ysbryd Glân yn siarad yn bwerus drwy blant yn ogystal ag oedolion.
Gall pobl ddysgu beth mae Ysbryd Glân Duw eisiau ei ddweud wrthyn nhw drwy'r hyn a ddywedwn ac a wnawn. Mae ein heglwys yn gwrando ar leisiau plant fel rhan o hyn.







8. Mae darganfod a datblygu doniau mewn plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar yr eglwys.
Mae ein heglwys yn ceisio helpu pob un aelod i ddarganfod eu doniau arbennig a'u helpu i ddatblygu a defnyddio'r doniau hynny.

9. Fel teulu'r eglwys, rhaid inni ddysgu gwneud dim ond y pethau hynny mewn grwpiau oedran ar wahân na allwn eu gwneud gyda'n gilydd yn synhwyrol.
Mae ein heglwys yn ceisio creu cyfleoedd inni wneud pethau gyda'n gilydd fel un teulu, ac nid oes ganddi ormodedd o bethau sydd ar gyfer oedolion yn unig.

10. Mae'r cysyniad o 'offeiriadaeth yr holl saint' yn cynnwys plant.
Gall pawb yn ein heglwys fod yr un mor agos at Dduw, trwy weddïo a gwasanaethu.

Am fwy o syniadau ynghylch sut i groesawu plant i'n hoedfaon, ewch i wefan www.ysgolsul.com a chlicio ar Lle plant ym mywyd yr eglwys - Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru

*Aled Davies*

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Swyddfa'r Gymanfa
## Pennaeth Ariannol

Cefndir – Mae'r Eglwys yn ceisio gwasanaethu cymunedau yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig trwy gyfrwng mwy na 440 o gynulleidfaoedd a thros 12,000 o aelodau sy'n perthyn i'r Eglwys. Trwy fywyd a thystiolaeth yr eglwysi hyn, ein Gweinidogion, ein Gweithwyr Gweinidogaethau, ein Canolfan Plant ac Ieuenctid a'n Canolfan Hyfforddi Lleygwyr, rydym yn ymdrechu i geisio model gwaith cyd-destunol a chyfredol sy'n anelu at ddod â gobaith, goleuni a dylanwad yr Efengyl i rym ar ein cenhedlaeth.

Mae'r Eglwys yn credu y dylem sicrhau Pennaeth Ariannol sydd â chyfrifoldeb penodol am gynghori ar stiwardiaeth ariannol yr Eglwys.

Oriau: 35 awr yr wythnos.
Cytundeb: Parhaol, gyda chyfnod prawf o 6 mis.
Cyflog: 58–62 (£47,660–£50,028 pro rata), ar raddfa cyflog EBC.
Mae cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
Lleoliad: Mae'r swydd hon wedi'i lleoli yn swyddfa'r Gymanfa, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, ac o gartref.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol dymunol yn berthnasol i'r swydd hon – gweler y 'cefndir' uchod.

Am ragor o wybodaeth ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn – 02920 627 465

**Dyddiad cau: 24 Chwefror 2026 am 4yp**

## Ceisiadau ar gyfer derbyn medal Gee – 2026

Daeth yn amser unwaith eto i eglwysi gyflwyno ceisiadau ar ran y rhai hynny sy'n gymwys i dderbyn y fedal arbennig hon. Gwahoddir ceisiadau am fedalau ar ran aelodau sydd dros 75 oed ac wedi mynychu'r Ysgol Sul yn gyson ar hyd eu bywydau. Trefnir cyfarfodydd yn lleol i gyflwyno'r medalau, gan amlaf yn nalgylch y rhai sy'n derbyn y medalau. Cyflwynir y medalau hyn rhwng mis Medi a Rhagfyr 2026. Noder mai 30 Mehefin yw dyddiad cau derbyn ceisiadau. Tybed oes yna rywrai yn eich eglwys chi sydd wedi bod yn ffyddlon, un ai fel athro ar y plant neu'n rhan o ysgol Sul neu ddosbarth Beiblaidd ar gyfer oedolion? Ewch ati i wneud cais ...

Mae mwy o wybodaeth a ffurflen gais ar gael o'n gwefan: Medalau Gee – Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru

Gyda diolch,

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru*




## Newyddion diweddaraf Cytûn

Wrth i'r flwyddyn newydd fynd rhagddi, rydym yn falch o rannu rhai o'r ychwanegiadau diweddaraf i wefan Cytûn, ynghyd â diweddariad byr am newidiadau rydym yn eu gwneud i'r ffordd rydym yn cyfathrebu â chi.

**Ychwanegiadau diweddar i wefan Cytûn**

Ers mis Ionawr 2026, mae nifer o eitemau newyddion ac adnoddau newydd wedi'u hychwanegu at y wefan:

- **Adnoddau newydd Sul Cyfiawnder Hiliol** — adnoddau dwyieithog i gefnogi eglwysi ar Sul Cyfiawnder Hiliol: https://www.cytun.co.uk/adnoddau-dydd-sul-cyfiawnder-hiliol/
- **Hawlio Cristnogaeth: gwahoddiad i eglwysi archwilio ffydd a phoblyddiaeth** — darlith gyhoeddus am ddim yn archwilio ffydd a bywyd cyhoeddus: https://www.cytun.co.uk/hawlio-cristnogaeth/
- **Cadeirydd Nesaf Cytûn** — penodwyd cadeirydd newydd i Cytûn, sef Kathryn Stowers, Capten ym Myddin yr Iachawdwriaeth ac arweinydd eu gwaith yng Nghasnewydd, a Chanon Eciwmenaidd cyntaf Eglwys Gadeiriol Casnewydd: https://www.cytun.co.uk/cadeirydd-nesaf-cytun/
- **Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth gofal plant** — trosolwg o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a'i oblygiadau posibl: https://www.cytun.co.uk/newidiadau-gofal-plant/
- **Diweddariad ar y Bil Oedolion â Salwch Terfynol (Diwedd Oes)** — gwybodaeth am y Ddadl Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd. https://www.cytun.co.uk/diweddariad-cymorth-i-farw/

Gobeithiwn y bydd y cynnwys hwn yn parhau i gefnogi eglwysi a chymunedau ffydd ledled Cymru i ymgysylltu'n ystyriol â'r bywyd cyhoeddus.

Mae'r holl newyddion ac adnoddau diweddaraf ar gael yma: https://www.cytun.co.uk


**Newidiadau i'r wefan a'r cylchlythyr**

Rydym hefyd yn parhau i weithio ar wella gwefan Cytûn a'r cylchlythyr hwn. Ein nod yw sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol, yn amserol ac yn hawdd ei gyrchu, ac yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n cydymffurfio'n llwyr â gofynion diogelu data.

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 15 – Ymson Ruth

Cefais fy ngalw'n dramorwraig, yn fewnfudwraig, rhywun nad oedd yn perthyn. Nid ag inc y sgrifennwyd fy stori, ond â ffyddlondeb. Priodais yn ifanc ac ro'n i'n gorlifo â gobaith. Credwn y byddai cariad yn f'angori, ond yn hytrach daeth marwolaeth i'm rhan fel lleidr yn y nos. Cipiwyd fy nhad yng nghyfraith ac yna fy ngŵr. Chwalwyd fy nyfodol. Creadur bregus iawn yw gwraig weddw, a dyna fy hanes i. Profais pa mor gyflym y mae'r byd yn anghofio poen rhywun arall, yn enwedig artaith merch heb wryw wrth ei hochr.

Pan ddywedodd Naomi, fy mam yng nghyfraith, wrthyf ei bod yn ystyried dychwelyd i Fethlehem, rhoddodd rywbeth imi, sef posibilrwydd. Roedd ei geiriau'n ategu'r boen yr oedd hithau wedi'i phrofi, ond eto'n dangos penderfyniad. Ac y mae i bob penderfyniad ei werth. Mynnodd fy mod i ac Orpa'n mynd adre, yn dychwelyd at ein pobl. Dyna oedd y peth synhwyrol i'w wneud.

Ond nid peth synhwyrol yw cariad bob amser. Ro'n i wedi cerdded gyda Naomi yn ei cholled. Gwyliais ei ffydd yn simsanu ond eto'n goroesi. Ro'n i'n ei hedmygu ac roedd hi'n ddolen barhaol â'm gŵr a'r cariad hwnnw fu rhyngom. Ffurfiais fy marn yn weddol gyflym a heb feddwl ymhellach, llefarais y geiriau'n huawdl: "Ble bynnag yr ei di, af finnau. Lle bynnag y byddi'n aros, byddaf fi yno. Dy bobl di fydd fy mhobl i; bydd dy Dduw di yn Dduw i minnau. Lle bynnag y byddi di'n marw, byddaf finnau hefyd farw yno a'm claddu yn yr un fan."

Wyddwn i ddim ar y pryd mai gras a gariodd y geiriau o'm genau i glustiau Naomi. Gras hefyd a greodd yr agosatrwydd rhyngom. Roedd angen y naill a'r llall arnom ni, ac mae ar bawb angen gras.

Wedi inni gyrraedd Bethlehem, teimlais yn syth na chawn fy nerbyn yno. Roedd fy acen yn chwithig ac yn fy rhoi mewn cornel. Roedd gwedd a lliw fy nghroen yn creu pellter rhyngof a'r bobl. Felly, penderfynais fod yn rhaid imi weithio'n galed yn y caeau; byddai hynny'n golygu y cawn fy nerbyn ymhen hir a hwyr, gobeithio. Ro'n i'n crymu dan yr haul tanbaid; cofleidiais hunan-barch wrth gasglu'r grawn. Dysgais hefyd sut y mae ffydd yn amlygu'r angen i fod yn bresennol, ynghanol pethau. Roeddwn yn wag, ond daliwn ar yr addewid y dôi pethau'n well.

Yna, gwelais Boas. Roedd yn ddyn pwysig yn ei gymuned. Cefais fy ngweld ganddo yntau a thrwyddo sylweddolais pa mor bwysig yw caredigrwydd. Nid f'achub i rhag unrhyw beth a wnaeth Boas, ond fy ngweld o fewn cyd-destun y cae. Tawelodd fy meddwl oherwydd iddo gynnig cysgod imi dan ei adain. Edrychodd ar fy ôl.

Rhennais hyn gyda Naomi – roedd y ddwy ohonom yn dweud popeth wrth ein gilydd. Ei chyngor hi oedd y dylwn fynd at Boas wedi iddo orffen gweithio a mynd i'w wely. Roedd ofn mentro arnaf, ond fe es i. Cysgodd Boas yn drwm drwy'r nos ac yn y bore synnodd fy ngweld mor agos ato. Ond chymerodd e ddim mantais ohonof, a mynnodd fy mharchu. Mewn gwirionedd, fe wnaeth imi deimlo'i fod yn dymuno fy newis ond ei fod yn dymuno gwneud hynny'n deilwng.

Priodwyd ni a chawsom gysgu gyda'n gilydd â pharch a chariad. Cefais fab ac fe deimlais fy mod yn perthyn unwaith eto. Heb yn wybod imi ar y pryd, byddwn yn hen fam-gu i frenin, oherwydd rhedodd fy ngwaed i linach Dafydd ac ymhellach na hynny hyd yn oed – i'r un a fyddai'n Waredwr y bobl. Digwyddodd hyn oherwydd imi ddewis bod yn driw ac yn ffyddlon er i'r pris fod yn uchel iawn.

Os cofiwch fi, cofiwch fod Duw yn gweithio ac yn gweithredu drwy bobl gyffredin a gwahanol – y rhai annisgwyl, nad ydynt efallai'n perthyn i neb na dim. Ac weithiau, mae angen penderfyniad yn eich ffyddlondeb. Cofiwch hynny!

**Holi**

- A gawsoch chi erioed eich herio i aros yn ffyddlon i rywun, i rywbeth, neu i ryw achos (bach neu fawr, hawdd neu anodd)?
- Sut allwn ni heddiw greu cymunedau Cristnogol sy'n cofleidio pobl ac yn cynnig lle cynhwysol iddyn nhw?
- Wyddoch chi am enghreifftiau o bobl sy'n gweithio'n ddygn a heb eu 'gweld'? Beth am ein harweinyddion eglwysig a'n gweinidogion?
- Sut all ein penderfyniadau ni, fel unigolion ac o fewn ein heglwysi, arddel ffyddlondeb i'r egwyddorion gorau ond eto bod yn gyffrous yn ein mentergarwch?

**Gweddi** (seiliedig ar Philipiaid 4:8)
Rho inni'r awyddfryd i lynu at y rhinweddau gorau: yr hyn sy'n wir ac i'w edmygu, beth sy'n iawn i'w wneud, yn bur, yn garedig ac yn anrhydeddus, popeth da ac unrhyw beth sy'n haeddu ei ganmol. Amen.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 8 Chwefror, am 7:30yh – Cynefin William Morgan**
Nia Roberts sydd ar grwydr yng Nghwm Machno, bro mebyd yr Esgob William Morgan, cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg. Mae'n ymweld â'i gartref cyntaf, Tŷ Mawr Wybrnant, ac yn clywed am adfywiad Eglwys Sant Tudclud, Penmachno, diolch i ewyllys da a gwaith caled y gymuned gyfan. Daw'r emynau o addoldai ledled Cymru, gan gychwyn a gorffen yng Nghadeirlan Llanelwy, lle roedd William Morgan yn esgob am flynyddoedd olaf ei fywyd. A chawn fwynhau perfformiad swynol gan Lily Mohammad.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 8 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Mair Beech Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 8 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Trystan Owain Hughes, Caerdydd

# Grant Gofalaeth 2026 – Y Drysorfa Gynorthwyol, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Mae'r Drysorfa Gynorthwyol yn cynnig grant i gynorthwyo gofalaeth o un neu ragor o eglwysi i dalu'r gydnabyddiaeth gychwynnol i'w gweinidog, yn unol ag argymhellion yr Undeb ar gyfer 2026.

### Swm y grant

Hyd at £7,500 y flwyddyn, am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

### Cydnabyddiaethau 2026

- Gweinidog llawn amser: £31,188
- Lwfans tŷ (os nad oes tŷ di-rent a di-dreth): £5,440
- Treuliau teithio ar y raddfa a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau EF:

  – 45c y filltir am y 10,000 milltir cyntaf

  – 25c y filltir wedyn.

### Amodau'r grant

- Mewn gofalaeth o fwy nag un eglwys, gall un ohonynt gyflwyno'r cais.
- Rhaid i bob eglwys fod wedi talu ei thanysgrifiad aelodaeth i'r Undeb yn llawn.
- Rhaid cyflwyno Adroddiad Ariannol y ddwy flynedd flaenorol gan bob eglwys, yn dangos:

  – ymdrech deg yr aelodau i gyfrannu at y weinidogaeth

  – nad oes adnoddau ariannol sylweddol wrth gefn nad ydynt wedi'u hymrwymo a allai gyfrannu at gynnal y weinidogaeth.

Bydd y grant yn cael ei ddyfarnu **pro rata**:

- mewn gofalaeth gydenwadol – i'r eglwys/i Annibynnol
- mewn gofalaeth â gweinidog rhan amser.

### Gweinyddu

Bydd y Panel Arfarnu yn ystyried y ceisiadau. Ymddiriedolwyr y Drysorfa Gynorthwyol fydd yn goruchwylio'r cynllun, gyda'r hawl i'w addasu neu ei ddiwygio yn ôl y gofyn.

**Tymor a chyflwyno ceisiadau**

**Rhaid cyflwyno cais bob blwyddyn erbyn diwedd mis Mawrth, a bydd penderfyniad erbyn diwedd mis Ebrill.**

### Cysylltu

Am ffurflen gais, cysylltwch â'r Swyddog Gweinyddol:
**E-bost:** meinir@annibynwyr.cymru **Ffôn:** 01792 795888

# Newyddion o eglwys Llanfair, Pen-rhys – Ionawr 2026

Fe wnaethon ni'n gorau o bob cyfle yn Llanfair i rannu gwir ystyr y Nadolig gan ddechrau gyda digwyddiad ar 1 Rhagfyr gyda Nic o'n prosiect celfyddydau, 'Tu Hwnt i'r Gofyn' a grŵp o'n plant yn creu golygfa o'r baban Iesu, Mair, Joseff, yr angel, bugail a'r doethion, ac fe wnaeth un o'n gwirfoddolwyr, Paul, greu cerdyn Nadolig o'r olygfa i'w roi ac i'w anfon at ein ffrindiau.



'wedi'i wneud gan Nic gyda phlant Eglwys Llanfair'

### Gweithgareddau di-ri

Er gwaetha'r tywydd gwael ar ddydd Sadwrn, 6 Rhagfyr, aeth ein Ffair Nadolig yn arbennig o dda gan godi arian i helpu disgyblion Ysgol FJKM David Griffiths ym Madagascar, ac yna ar ddydd Sul, 7 Rhagfyr aethon ni i ymweld â rhai o drigolion cartref nyrsio Millview yn Ystrad i ganu carolau gyda nhw. Cawsom barti Nadolig 'Tu Hwnt i'r Gofyn' ar yr 11eg ac yna barti i'r plant sy'n dod i'r ysgol Sul neu'r clwb gwaith cartref ar yr 16eg gyda Siôn Corn yn rhannu anrhegion. Aethon ni mas i ganu carolau ym Mhenrhys ar y 18fed cyn dod nôl i'r caffi i dwymo a mwynhau siocled poeth a thost. Yn anffodus roedd hi'n bwrw glaw ar y diwrnod pan oedd disgyblion ac athrawon ysgol gynradd Penrhys i fod i ddod atom ar gyfer gwasanaeth carolau. Ar ddydd Sul yr 21ain roedd rhai o'n merched wedi canu caneuon 'Nativity' fel rhan o'r oedfa Nadolig a chawsom wasanaeth carolau ar noswyl Nadolig. Yn ogystal â hynny, buon ni'n dosbarthu sawl 'hamper' Nadolig i deuluoedd mwy bregus.

**Sharon Rees**



# Barn Annibynnol

## Amser?

Rydym yn dweud amryw byd o bethau wrth feddwl am amser. Mae amser yn treiglo neu hyd yn oed yn hedfan! Mae gan rai cymaint o amser ar eu dwylo fel eu bod yn sôn am ladd amser ac eraill yn ei weld yn diflannu mor gyflym fel bod rhaid ei brynu. Dywedir fod y pethau gorau mewn bywyd i'w cael yn rhad, ac mae hyn yn sicr yn wir am amser. Yn nhymor yr arwerthiannau yn y siopau fis Ionawr nid oedd yn bosibl i ni fynd i'r siopau i dalu ag arian ac efallai y gwnaethom golli allan ar gyfle i gael bargen yn ystod y mis hwnnw, wrth edrych yn ôl. Bois bach fel y mae amser yn hedfan, ie yn carlamu, mae'n fis Chwefror yn barod, a chyn bo hir mi fydd yn wanwyn.

Ond ni ddylen siarad am ladd amser gan ei ystyried fel rhywbeth beichus i gael gwared arno. I'r Cristion, yr un modd ag i'r anghredadun, nid rhywbeth i'w ladd yw amser ond rhywbeth i'w brynu, hynny yw, i wneud yn fawr ohono. Rwy'n siŵr fod y dyneiddiwr gorau fel y Cristion yn hoffi meddwl fod amser yn rhodd a gawn, nid i'w wastraffu ond i'w ddefnyddio yn dda ac mor effeithiol ag y medrwn. Fel Cristnogion wrth gwrs, credwn fod amser yn rhan o greadigaeth Duw a'i fod yn rhoi iddo bwrpas a chyfeiriad. Dysga'r Testament Newydd fod Duw yn nyfodiad Iesu Grist wedi dod i'n byd, yn ôl yr hen gyfieithiad, yng nghyflawnder yr amser (Galatiaid 4:4), hynny yw pan oedd y byd yn aeddfed ac yn ddigon parod i weld a hyrwyddo'r genhadaeth Gristnogol, er bod Iesu tra ar y ddaear wedi cael ei wrthod a'i groeshoelio gan ei bobl ei hun a'r ddynoliaeth. Ond roedd y weithred honno yn uchafbwynt stori ein hiachawdwriaeth, roedd yn rhan o fwriad penodedig a rhagwybodaeth Duw, er i'r Iddewon a llywodraeth Rhufain trwy Pilat fynnu ei groeshoelio ar y pryd mewn anwybodaeth. Daeth Iesu i'n byd er ein mwyn ac er ein hiachawdwriaeth (Ioan 3:16) ac wrth feddwl ynghylch sut y gwnawn ddefnyddio ein hamser, ateb cywir fyddai trwy ddweud ein bod yn dymuno treulio ein hamser i wasanaethu Duw ac i'w ogoneddu yn ein holl ymgymeriadau a'n gweithgareddau.



### Chronos a Chairos

Gŵyr y cyfarwydd fod yna ddau air yng Ngroeg y Testament Newydd am amser sef *chronos* a *chairos*. Mae'r gair *chronos* yn cyfeirio yn benodol at gyfnod o amser, ac roedd yn air oedd yn awgrymu mesuriad amser, boed hynny yn gyfnod byr neu yn gyfnod maith. O'r gair *chronos* y cawn y gair cronicl. Wrth gofnodi digwyddiadau mewn hanes rydym yn sôn am groniclo digwyddiadau, a llyfrau ydy 1 a 2 Cronicl yn yr Hen Destament sydd yn croniclo cyfnodau gwahanol yn hanes dynoliaeth a hanes brenhinoedd Israel a Jwda. Pwyslais cwbl wahanol sydd i'r gair *chairos* gan nad gair awgrymog am gyfrif amseriad amser ydyw ond gair yn cyfeirio fwy at addasrwydd amser a'r cyfle y mae yn ei gynnig. Gallwn feddwl am *chronos* yn nhermau 'quantity' a *chairos* yn nhermau 'quality'. Ac wrth feddwl am addasrwydd amser a pha ddefnydd a wnawn o'n hamser, y gair y mae'r Testament Newydd yn ei ddefnyddio i gyfleu hyn ydyw *chairos*: 'Daliwch ar eich cyfle (*chairos*), oherwydd mae'r dyddiau'n ddrwg,' (Effesiaid 5:16) a 'Byddwch yn ddoeth eich ymddygiad tuag at y rhai di-gred; daliwch ar eich cyfle (*chairos*).' (Colosiaid 4:5).

Yn ôl Morgan Llwyd, gyda'r Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn Wrecsam llynedd, mae'n dda i ni gofio mai 'Amser dyn yw ei gynhysgaeth, a gwae a'i wario yn ofer.' Ac mae gan y bardd a'r llenor o Sir Gaerfyrddin, y diweddar W. Leslie Richards englyn a seiliodd ar y dywediad:

Amser dyn

Dy fodd i gyd a feddi – yw'r einioes<br>
fer a rannwyd iti,<br>
a thaer wylia na threuli<br>
yn ofer dy amser di.

Dywedodd rhywun rhyw dro, 'Ni allwn wneud dim am hyd bywyd ond gallwn wneud rhywbeth ynglŷn â'i ansawdd,' ac 'nid faint o flynyddoedd a gawn sy'n cyfrif, ond pa beth a wnawn o'r blynyddoedd a gawn.'

Aralleiriad J. Williams Hughes o adnod Paul yn yr Effesiaid yw 'gosodwch eich holl ddoethineb ar waith i gymryd mantais o bob cyfleustra a gwneud llawn ddefnydd ohono.' Cyfieithiad Saesneg Ronald A. Ward o'r ymadrodd 'daliwch ar eich cyfle' yw 'concerning the market in opportunity', hynny yw, bachwch bob cyfle. Mae rhaid i'r gŵr busnes craff weld y bwlch yn y farchnad a mynd amdano, ac rwy'n hoff o englyn arall, y tro hwn gan Eifionydd:

Cyfle

Ni gawn ei gynnig unwaith – yn ein dydd,<br>
prin y daw ddwywaith,<br>
daw ei angen sawl dengwaith,<br>
ond rhin hwn ydyw'r un waith.

### Bachwn ar ein cyfle

Trwy drugaredd a gras Duw gallwn ddiolch ein bod yn cael mwy nag un cyfle yn aml, er nad bob amser, ond gyda'r byd yn ddrwg fel y mae yr awr hon, ac arweinwyr byd fel Vladimir Putin a Donald Trump yn gweithredu yn unbenaethol, yn dotalitaraidd ac yn ormesol, mae angen i ni achub ar y cyfle fel anghydffurfwyr i ddweud na i'w gweithrediadau treisiol a'n bod fel pobl Dduw yn dymuno arddel Iesu fel ein Ceidwad gan ddilyn ffordd Tywysog Tangnefedd. Pe byddai Cristnogion drwy'r byd yn sefyll ac yn gweithredu yn unol ag ewyllys ein Harglwydd Iesu Grist, byddai gobaith am weld gwell byd, a gwaredigaeth rhag difancoll.

**Emyr Gwyn Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Ebeneser, Caerdydd




## Dathlu 200

Mae 2026 yn flwyddyn nodedig i eglwys Ebeneser, Caerdydd, gan ein bod yn dathlu ein pen-blwydd yn 200. Cychwynnwyd yr achos mewn coety tafarn ar Westgate Street – nid nepell o stadiwm y Mileniwm – gan 26 o aelodau. Wrth gwrs nid oedd y stadiwm yno ar y pryd! Adeiladwyd y capel cyntaf ym 1828 a chwynai'r gweinidog cyntaf y Parchg Lewis Powell, fod y lleoliad yn llawer rhy wledig!

Yn ystod y flwyddyn byddwn yn nodi'r dathliad mewn amrywiol ffyrdd. Ar ddydd Sul 1 Mawrth am 3 o'r gloch yng nghapel y Methodistiaid, Yr Eglwys Newydd, cynhelir oedfa ddathlu. Yna, ar ddydd Sadwrn 6 Mehefin bydd taith gerdded hanesyddol yn cychwyn am 10.30 o Womanby Street draw i Cornerstone, Heol Siarl. Am 11.30 byddwn yn cael lluniaeth ysgafn yn Cornerstone. Hoffem wahodd cyn-aelodau a ffrindiau i'r digwyddiadau hyn. Byddem wrth ein boddau yn cael eich cwmni.

Yn y cyfamser rydym wedi cynhyrchu Calendr Dathlu 200 gyda lluniau perthnasol i'r ddwy ganrif. Maent ar werth am £10 yr un gyda'r elw yn mynd tuag at Y Samariaid. I archebu eich copi cysylltwch ag Alun aluntudur@btinternet.com.

## Nadolig Ebeneser

Fel pob eglwys buom yn brysur dros dymor y Nadolig yn dathlu geni gwyrthiol ein Gwaredwr bendigedig. Cynhaliwyd noson creu torchau tymhorol i'w gosod fel addurn yn ein cartrefi ac roedd yr elw yn mynd tuag at Y Samariaid. Diolch i Bethan Hayes a'r criw am drefnu. Roedd pump o oedfaon Nadoligaidd. Oedfa Cymorth Cristnogol yn tynnu sylw at yr angen yng Ngholombia; Carol a Chacen, lle roeddem yn cael canu ein hoff garolau, diolch i Catrin Roberts am drefnu a sgriptio; Llanllanast pob oed yng Nghanolfan Yr Eglwys Newydd; oedfa ddwyieithog gyda'n cyfeillion o'r eglwys Fethodistaidd ac i gloi, oedfa deuluol ar fore dydd Nadolig. Diolch o galon i bawb gymerodd ran. Ond yn bennaf oll diolchwn i Dduw am y rheswm i ddathlu sef geni Iesu Grist. 'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef, hwn yw y mwyaf un.' Ar Sul olaf y flwyddyn rhoddwyd oedfa ddigidol gan Alun ar sianel Youtube, Ebeneser sef: https://www.youtube.com/@eglwysebenesercaerdydd7800



## Angor

Bu Angor Grangetown hefyd yn ddiwyd gyda digwyddiadau Nadolig. Cynhaliwyd sesiwn Llanllanast yng nghapel Bay Church ac oedfaon o fawl ar Suliau'r Adfent. Eleni eto cynhaliwyd noson garolau yn nhafarn y Grange o dan arweiniad James Dafydd. Roedd y dafarn o dan ei sang a phobl wrth eu boddau'n morio canu'r carolau fel un llais.




# BUGEILIO'N GILYDD

**'Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd'** (Actau 20:28)

Ydych chi'n angerddol dros estyn gofal a chariad?
Ydych chi'n teimlo galwad i estyn gofal bugeiliol?
Ydych chi awydd dysgu mwy am fugeilio'n gilydd?

**Dyma wahoddiad i chi ddilyn y modiwl 'Bugeilio'n Gilydd'.**

Nos Lun, Chwefror 2, 9, 23, Mawrth 2, 9, 16, 23 a 30
7:00 – 8:30 o'r gloch ar Zoom,
dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall.

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru: carwyn@annibynwyr.cymru

**Croeso cynnes i bawb**

